# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Croeso | t.1 |
| Ein cyrsiau | t.2 |
| Astudio trwy gyfrwng y Gymraeg | t.18 |
| Cyflogadwyedd | t.19 |
| Ymchwil | t.20 |
| Cyfleoedd byd-eang | t.23 |
| Sut i wneud cais | t.24 |


THE TIMES THE SUNDAY TIMES
CANLLAW PRIFYSGOLION DA 2024
PRIFYSGOL Y FLWYDDYN YNG NGHYMRU

**Gwybodaeth bwysig**

Roedd yr wybodaeth a gyhoeddir am y rhaglenni gradd yn y llyfryn hwn yn gywir pan anfonwyd y ddogfen i'w hargraffu (Hydref 2023), ond fe allai newid. Cynghorir darpar fyfyrwyr i edrych ar ein gwefan i gael yr wybodaeth a'r manylion diweddaraf am y cwrs, gan gynnwys ein gofynion mynediad, cyn gwneud cais, er mwyn bod yn sicr fod y cynllun yn addas i'w gofynion.





# Croeso

Mae'r Adran Daearyddiaeth a Gwyddorau Daear ymysg y mwyaf a'r mwyaf profiadol o'i math yn y Deyrnas Unedig. Mae'n arbenigo mewn ystod eang o themâu ar draws y gwyddorau naturiol, ffisegol a chymdeithasol. Yn ddiweddar rydym wedi dathlu canrif o ddaearyddiaeth yn Aberystwyth, ac rydym wedi bod yn dysgu Gwyddorau Daear hyd yn oed yn hirach! Rydym yn y 5 uchaf yn y DU ac ar y brig yng Nghymru am foddhad cyffredinol myfyrwyr ym maes Daearyddiaeth Ddynol ac yn y 10 uchaf yn y DU ac ar y brig yng Nghymru am foddhad cyffredinol myfyrwyr ym maes y Gwyddorau Daearyddol Ffisegol (Arolwg Cenedlaethol Boddhad Myfyrwyr 2022).

Mae gennym draddodiad maith o gynnig cynlluniau gradd cyfoes a chyffrous, ac wedi ychwanegu cymdeithaseg at ein portffolio'n ddiweddar, ar sail dros 100 mlynedd o ymchwil arloesol yn y gwyddorau cymdeithasol ym Mhrifysgol Aberystwyth.

Mae'n staff yn angerddol ynglŷn â'u gwaith. Maent yn ymchwilwyr a darlithwyr ymroddedig, llawer ohonynt yn flaenllaw yn eu priod feysydd. Mae eu gwybodaeth uniongyrchol o'r byd yn bwydo'n cyrsiau israddedig drwy amryw o themâu arbenigol.

Rydym yn darparu amrywiaeth o gyfleoedd dysgu ichi, boed mewn darlithfa, dosbarth seminar, tiwtorial, mewn labordy neu ar gyrsiau maes. Cewch eich asesu mewn amryw o ffyrdd, gan gynnwys arholiadau, adroddiadau, cyflwyniadau, fideos a thraethodau, bob un ohonynt wedi'u dylunio i wella'ch sgiliau pwnc-benodol, personol a throsglwyddadwy. Yn ogystal â myfyrwyr bodlon iawn, rydym bob amser wedi sicrhau hanes da o ran cynhyrchu graddedigion cyflogadwy iawn ac mae ein graddedigion yn mynd i weithio mewn ystod eang o yrfaoedd, neu yn astudio am raddau uwch.

Mae rhagor o wybodaeth am ein cyrsiau a'n cyfleoedd eraill ar gael drwy'r llyfryn hwn i gyd, a hoffwn eich annog i ymweld â ni ar Ddiwrnod Agored / Ddiwrnod Agored Ar-lein neu Ddiwrnod Agored i Ymgeiswyr er mwyn gweld drosoch eich hun beth sy'n gwneud Aberystwyth yn lle mor anhygoel i astudio ynddo.

**Dr Hywel Griffiths**
**Yr Adran Daearyddiaeth a Gwyddorau Daear**

# Ymchwil

Cewch eich dysgu gan ymchwilwyr sy'n arwain y byd yn ystod eich amser yn Aberystwyth. Mae'n staff ni'n arbenigwyr ar draws ystod eang o feysydd mewn daearyddiaeth ddynol, daearyddiaeth ffisegol, gwyddor amgylcheddol, Gwyddor Daear a chymdeithaseg. Maent yn gweithio ar draws nifer o grŵpiau ymchwil penodol: Canolfan Rewlifeg; Daearyddiaeth Ddiwylliannol a Hanesyddol; Arsylwi ar y Ddaear a Deinameg Ecosystemau; Prosesau Wyneb y Ddaear; Newid Amgylcheddol Cwaternaidd; Cymdeithas, Gofod, a Lle; a'r Ganolfan Ryngddisgyblaethol Microbioleg Amgylcheddol a Gecemeg.

Mae 95% o'r ymchwil yn yr Adran Daearyddiaeth a Gwyddorau Daear yn arwain y byd neu'n rhagorol yn rhyngwladol (REF 2021), gan ddynodi ansawdd ac ehangder y gwaith ymchwil a wnawn. Un o nodweddion allweddol yr ethos 'addysgu ar sail ymchwil' yn Aberystwyth yw y byddwch yn cael cyswllt rheolaidd ag arloeswyr ac arweinwyr cydnabyddedig yn eu priod feysydd. Mae hyn yn sicrhau eich bod yn agored i'r syniadau academaidd diweddaraf mewn darlithoedd, tiwtorialau, seminarau a chyrsiau maes israddedig drwy gydol ein rhaglenni.

**CHERISH (Hinsawdd, Treftadaeth ac Amgylcheddau Riffiau, Ynysoedd a Phentiroedd):** prosiect a ariennir gan yr UE sy'n anelu at gynyddu gwybodaeth a dealltwriaeth o effeithiau newid hinsawdd (yn y gorffennol, y presennol a'r dyfodol agos), rhagor o stormydd a digwyddiadau tywydd eithafol ar dreftadaeth ddiwylliannol riffiau, ynysoedd a phentiroedd moroedd rhanbarthol Cymru ac Iwerddon, gan gynnwys hefyd y Comisiwn Brenhinol, y rhaglen Discovery ac Arolwg Daearegol Iwerddon. Gweler:

cherishproject.eu | CHERISH Project | @CHERISHproj

**RIPFISH (RIft Propagation For Ice SHeet models):** Nod y prosiect hwn a ariennir gan NERC yw ateb cwestiynau ynghylch yr ansicrwydd ynghylch codiad byd-eang yn lefel y môr sy'n gysylltiedig â sgafelli iâ Antarctica. Mae'r prosiect yn asesu prosesau hollt a rhwygiad ia mewn rhewlifoedd sy'n arwain at ddadelfennu sgafelli iâ, nawr ac yn y dyfodol. Mae'r ymchwil yn dod ag ymchwilwyr blaenllaw o ar draws Cymru ynghyd o Brifysgolion Aberystwyth ac Abertawe.

www.aber.ac.uk/en/dges/research/centre-glaciology/

AUCfG | @AU_CfG

**Global Mangrove Watch:** Mae mangrofau ffyniannus yn allweddol i iechyd natur a gweithredu hinsawdd effeithiol. Mae'r cydweithrediad hwn rhwng ymchwilwyr Aberystwyth a'r International Water Management Institute, Nature Conservancy, Solo Earth Observation a Wetlands International wedi creu llwyfan ar-lein sy'n darparu'r data synhwyro o bell a'r offer ar gyfer monitro mangrofau sydd eu hangen ar gyfer hyn. Mae'n rhoi mynediad cyffredinol i wybodaeth bron mewn amser real ar sut a ble mae mangorfau'n newid ledled y byd ac yn amlygu pam eu bod yn werthfawr.

www.globalmangrovewatch.org | @GlobalMangroves

**Coastal Uplands Heritage and Tourism (CUPHAT):** Dangosodd y cydweithrediad hwn rhwng ymchwilwyr mewn daearyddiaeth, gwyddorau bywyd ac astudiaethau busnes yn Aberystwyth a Choleg Prifysgol Dulyn ac Ymddiriedolaeth Archeolegol Dyfed dreftadaeth naturiol a diwylliannol ardaloedd ucheldir arfordirol Iwerddon a Chymru, gan gynnwys drwy ddefnyddio llwyfannau digidol newydd. Nod y prosiect oedd cynyddu mathau cynaliadwy ac adfywiol o dwristiaeth yn yr ardaloedd hyn, gan arwain at greu bywoliaethau, cymunedau ac amgylcheddau mwy cynaliadwy.

https://coastaluplands.com/ | @CUP_HAT_

Coastal Uplands: Heritage and Tourism (Cuphat)

**WISERD Civil Society:** Fel rhan o'r ganolfan ymchwil hon a ariennir gan yr ESRC, mae daearyddwyr dynol Aberystwyth wedi cydweithio â daearyddwyr, economegwyr a chymdeithasegwyr ym mhrifysgolion Bangor, Caerdydd ac Abertawe a Phrifysgol Technoleg Queensland i archwilio strwythurau nawdd elitaidd mewn sefydliadau cymdeithas sifil, llwybrau gweithredu amgylcheddol yn y DU ac Awstralia, a her pegynnu gwleidyddol mewn cymunedau lleol.

www.wiserd.ac.uk | WISERDNews | @WISERDNews





